

25/08/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio eich bod cael cyfle i ymlacio yn ystod gwyliau'r haf a bod eich plentyn yn barod i ddychwelyd i Fryn Tawe ym mis Medi. Rydym yn edrych ymlaen i groesawi ein disgyblion i gyd yn ôl i Fryn Tawe ym mis Medi. Yn naturiol, fe fydd yna drefniadau gwahanol i fywyd ysgol arferol er mwyn ceisio atal lledaeniad y feirws. Gofynnwn i chi dalu sylw gofalus i'r trefniadau newydd yma cyn bod eich plentyn yn dychwelyd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gael [yma](#) os ydych yn dymuno eu darllen. Gobeithio y gallaf ateb nifer o'ch cwestiynau yn y wybodaeth a rennir isod ac hefyd yn y ddogfen 'Trefniadau Covid – Gwybodaeth i rieni' ar ein safwe.

CYTUNDEB IECHYD A DIOGELWCH:

Rydym yn disgwyl i bob un o'n disgyblion i ddychwelyd ym mis Medi, ar y dyddiad cywir, oni bai bod rheswm meddygol yn nodi i'r gwrthwyneb. Rhaid i **bob rhiant**, sydd ddim wedi gwneud tra'n dychwelyd ar ddiwedd y tymor diwethaf, i **lenwi'r 'Cytundeb Iechyd a Diogelwch' yma**. Ni fydd eich plentyn yn gallu mynychu ym mis Medi os nad yw'r cytundeb wedi ei gwblhau ar ei gyfer. Mae angen ei wneud ar gyfer pob disgybl yn unigol, nid un fel teulu.

TREFNIADAU DECHRAU TYMOR:

Dyma fydd y drefn dychwelyd ar gyfer pob blwyddyn yn ystod y bythefnos gyntaf o fis Medi a **disgwylir i bob disgybl fynychu'r ysgol o ddydd Mercher y 9fed**:

DYDDIAD	AR AGOR	AR GAU
Mawrth y 01/09/20	DIM DISGYBLION: diwrnod cynllunio a pharatoi i staff yr ysgol (ar gau i bob disgybl)	Ar gau i bob disgybl
Mercher 02/09/20	DIM DISGYBLION: diwrnod cynllunio a pharatoi i staff yr ysgol	Ar gau i bob disgybl
Iau 03/09/20	Disgyblion blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig	Ar gau i ddisgyblion bl. 8, 9, 10 ac 11
Gwener 04/09/20	Disgyblion blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig	Ar gau i ddisgyblion bl. 8, 9, 10 ac 11
Llun 07/09/20	Disgyblion blwyddyn 7, 10, 11, 12 a 13 yn unig	Ar gau i ddisgyblion bl. 8 a 9
Mawrth 08/09/20	Disgyblion blwyddyn 7, 10, 11, 12 a 13 yn unig	Ar gau i ddisgyblion bl. 8 a 9
Mercher 09/09/20	Pob disgybl yn mynychu – 7, 8, 9, 10, 11, 12 a 13eg	

TREFNIADAU IECHYD POB DISGYBL:

Ni ddylai dysgwyr fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau os ydynt:

- yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 (peswch parhaus tymheredd uchel; colli blas; colli arogl)
- wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19
- yn byw ar aelwyd gyda rhywun sydd â symptomau, neu sydd wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19.

Yn unol a'r uchod:

- Dylent aros gartref er mwyn hunan ynysu a threfnu prawf COVID-19;
- Rhaid i unrhyw un sydd â symptomau hunan ynysu am 10 diwrnod o'r adeg y dechreuodd eu symptomau ac wrth aros am ganlyniad prawf.
- Rhaid i unrhyw un yn eich cartref nad oes ganddo symptomau hunan ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y dechreuodd y person cyntaf yn eich cartref gael symptomau.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebst: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Byddwn yn parhau i weithredu ar y cyngor iechyd rydym yn ei dderbyn gan y llywodraeth a'r All, sef sicrhau y bod disgyblion yn:

- **Golchi dwylo'n drylwyr neu ddiheintio dwylo yn amlach nag arfer.**
- **Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.**
- **Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd,**
- **Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion a chadw pellter cymdeithasol pan fo'n bosibl.**

GRWPIAU DYSGU:

Byddwn yn rhedeg amserlen lawn i bob disgybl. Ym mlynnyddoedd 7-9, bydd disgyblion yn cael gwersi yn eu dosbarth cofrestru pob dydd. Er mwyn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i disgyblion TGAU a Safon Uwch, wedi eu targedu at allu pob disgybl, gan arbenigwyr pynciol i'r grwpiau arholiad yma, bydd disgyblion yn derbyn gwersi gyda disgyblion o'r un flwyddyn. Felly, mae'n hanfodol bod ein disgyblion yn gwneud ymdrech i gydymffurfio gyda'r mesurau iechyd uchod ag ymdrechu i gynnal pellter cymdeithasol wrth deithio o gwmpas yr adeilad ac i ddilyn y system unffordd ar bob adeg. Bydd disgwyl i ddisgyblion ddiheintio eu desgiau gweithio cyn ac ar ôl pob gwersi.

DECHRAU A GORFFEN:

Byddwn yn dechrau'r dydd fel arfer am 08:30, ond **ni fydd modd i ddisgyblion gael mynediad i'r safle cyn 08:15, os ydynt yn cerdded neu yn derbyn lifft.** Gofynnwn i rieni beidio â gollwng eu plant yn yr ysgol cyn 08:15. Bydd pob blwyddyn yn defnyddio drws benodol ar gyfer dod i mewn i'r adeilad.

Byddwn yn rhyddhau disgyblion fesul blwyddyn ar ddiwedd y dydd gan ddechrau gyda blwyddyn 7 am 14:45 (gweler y safwe am amserau pellach i bob blwyddyn) er mwyn darwahanu'r disgyblion wrth adael.

EGWYL A CHINIO:

Ni fydd cinio ysgol i ddisgyblion am y bythefnos cyntaf (rhwng y 3ydd – 11eg o Fedi) a bydd disgwyl i bob disgybl ddod â phecyn bwyd. Byd ddisgyblion sydd dyn deilwng i brydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn pecyn bwyd wythnosll neu daliad Bacs yn ystod y cyfnod yma. **Mi fyddwn yn darparu bwyd yn yr ysgol o'r 14eg o Fedi Medi.** Bydd disgyblion yn treulio egwyl a chinio wedi ei ddarwahanu fesul blwyddyn. Ni fydd darpariaeth bwyd yn y ffreutur dros egwyl, felly bydd angen i ddisgyblion ddod â byrbrydau iachus os ydynt yn dymuno. Bydd cinio yn cael ei dorri i 30 munud, felly bydd dod a bwyd eu hunain yn fanteisiol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn darparu bwyd i ddisgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim. Bydd disgyblion yn derbyn cyfle i gael awyr iachus yn ystod y dydd.

GWISG YSGOL:

Ym mis Medi, rydym yn **disgwyl i ddisgyblion wisgo eu gwisg ysgol arferol.** Cofiwch am y wisg newydd ([gweler y llythyr yma](#)) sydd ar werth gan gwmni Bergoni. Fel nodir yn y llythyr, mae caniatâd gan ein disgyblion i wisgo eu gwisg bresennol yn ystod 12 mis y cyfnod trosglwyddo hyd at Fedi 2021.

CLUDIANT:

Bydd **cludiant ysgol** ar gael i ddisgyblion, ond yn naturiol oherwydd y risg o COFID-19, byddai'n fuddiol pe bai rhieni sydd yn gallu cludo eu plant i'r ysgol, yn gwneud hynny. Gweler y canllawiau teithio ar gludiant ysgol i rieni a disgyblion ar ein safwe – mae'n bwysig bod disgyblion a rieni yn ei ddarllen cyn dechrau'r tymor. Byddwn yn cadw at yr un trefniadau ar gyfer gollwng a chasglu'ch plant.

Rwy'n siŵr y bydd nifer o gwestiynau pellach gennych ac os oes, plis cysylltwch gyda ni ar y cyfeiriad e-bost newydd yma: swyddfabryntawe5@hwbcymru.net, neu drwy ffonio'r ysgol. Diolch eto i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd digynsail yma ac edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn yn ôl ym mis Medi.

Yn ddiffuant,



Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODD WYR
MEWN POBL**

Aur

